Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau o'r enw "Prentisiaethau yng Nghymru".

Trosolwg o'r Polisi Sgiliau

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Pholisi Sgiliau Prentisiaethau[1]. Nod y polisi yw cysoni prentisiaethau ag anghenion economi Cymru fel bod y system sgiliau'n ymateb i newidiadau yn y diwydiant, yn ogystal â buddsoddi mewn meysydd a fydd yn sicrhau mwy o enillion economaidd a chymdeithasol.

Yn ystod mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol, **'**Ffyniant i Bawb'[2], sy'n asgwrn cefn i bob datblygiad polisi yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn nodi sgiliau fel un o'r blaenoriaethau, ac mae'r blaenoriaethau eraill hefyd yn dibynnu ar yr agenda sgiliau – y blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a chyflogadwyedd.

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi[3] hefyd er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflenwi 'Ffyniant i Bawb'. Mae'n cynnwys camau gweithredu allweddol mewn perthynas â sgiliau, gan gynnwys: sicrhau bod ein rhanbarthau economaidd yn cyd-fynd â'r rhai a ddefnyddir at ddibenion eraill gan gynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol; a chyflwyno system gynllunio strategol ar gyfer addysg a sgiliau ar draws addysg ôl-16.

Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd, a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth, yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, y rhai sy'n economaidd anweithgar a'r rhai sy'n wynebu perygl o golli eu swyddi, i gael gwaith[4]. Mae 'Cymru'n Gweithio', rhaglen gyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru, wrthi'n cael ei chyflwyno a'r bwriad yw symleiddio'r cymorth cyflogadwyedd i unigolion sy'n ddi-waith a'r rhai sy'n economaidd anweithgar.

Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r cymorth i fynd i'r afael â'r rhagfarnau a'r confensiynau ehangach ynghylch rhywedd a gyrfaoedd yn dirywio, er mwyn sicrhau bod y cyfle ehangaf ar gael i bawb.

Ymateb: Derbyn

Mae mynd i'r afael â chydraddoldeb rhywedd yn flaenllaw yn ein polisi sgiliau prentisiaeth ac rydym yn ymrwymedig i wella mynediad i brentisiaethau a sicrhau cyfle teg a chyfartal i bob prentis. Yn 2016/17, roedd 60 y cant o ddysgwyr a oedd

---

[1] http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/apprenticeships-skills-policy-plan/?skip=1&lang=cy
[2] http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy
[3] http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf
[4] http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?skip=1&lang=cy

yn dilyn prentisiaeth yn fenywod ac roedd 40 y cant yn ddynion.[5] Fodd bynnag, mae'r ystadegyn hwn yn cuddio'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau sy'n bodoli mewn rhai sectorau.

Mae mesurau a gweithgaredd diweddar i helpu i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn cynnwys:

- Rhoi cyfarwyddyd i ddarparwyr prentisiaethau ddarparu cymorth/mentora ychwanegol i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhywedd, er enghraifft, menywod yn dilyn prentisiaeth adeiladu.
- Gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i hyrwyddo manteision amrywiaeth ar draws gweithlu Cymru, gan ganolbwyntio ar gyflogwyr sy'n recriwtio prentisiaid; cynhelir digwyddiadau ar y cyd o fis Ebrill 2018 ymlaen.
- Gweithio gyda sefydliadau allweddol megis Diwydiant Cymru i gynnal adolygiad o arferion recriwtio ar gyfer prentisiaethau yn y sector Peirianneg, er mwyn penderfynu pa arferion sy'n cael effaith ar nifer y menywod sy'n dod yn brentisiaid.

Yn ychwanegol at hyn, rydym yn annog ein darparwyr i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn rhwng y rhywiau drwy gymryd camau gweithredu wedi'u targedu megis:

- Defnyddio prentisiaid unigol fel modelau rôl a llysgenhadon cadarnhaol i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau ym mhob sector, er enghraifft, drwy ymweld ag ysgolion i rannu eu profiadau.
- Gweithgareddau/digwyddiadau cydweithredol wedi'u targedu tuag at fenywod, er enghraifft, prosiect 'Credu a Llwyddo' Coleg Gŵyr Abertawe.
- Defnyddio menter 'Rhowch Gynnig Arni' mewn ysgolion i alluogi pobl ifanc i gael blas ar weithgareddau a dileu'r stereoteipio ar sail rhywedd ym mhob sector.
- Cymryd rhan fel arddangoswyr mewn digwyddiadau Chwarae Teg megis #Notjustforboys.
- Casglu a hyrwyddo astudiaethau achos prentisiaid.

I helpu i gryfhau ac ategu'r gweithgaredd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth pwrpasol, sy'n gyfrifol am hybu cydraddoldeb i fenywod yn y gweithle a chynorthwyo darparwyr i herio stereoteipio ar sail rhywedd mewn rhai sectorau diwydiant. Mae'r Hyrwyddwr wedi mapio arfer da o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws rhwydwaith darparwyr prentisiaethau. Mae darparwyr prentisiaethau wedi cynnal hunanasesiadau i ddarganfod cryfderau a meysydd i'w gwella ac maent wedi cynhyrchu cynllun gwaith yn nodi strategaethau, gweithgareddau, hyfforddiant ac adnoddau sydd eu hangen i sicrhau gwelliant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael pecyn cymorth cynhwysfawr ar Gydraddoldeb i gefnogi cyflogwyr a darparwyr prentisiaethau ac mae'n cynnwys modiwlau penodol ar hunaniaeth rhyw, stereoteipio a rhagfarn ddiarwybod.

[5] Llywodraeth Cymru, Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: http://gov.wales/statistics-and-research/further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy

Mae ein Cynllun Cyflogadwyedd,[6] a gyhoeddwyd yn ddiweddar, hefyd yn rhoi materion mewn perthynas â chydraddoldeb a thegwch mewn lle blaenllaw yn ein gwaith. Mae gwahaniaeth rhwng y rhywiau o ran mynediad i gyfleoedd addysg megis cyrsiau STEM. Anogwn ein sefydliadau addysg i wneud mwy i gael menywod i mewn i gyrsiau mewn sectorau blaenoriaeth. Os na welwn gynnydd gwirioneddol, a hynny'n gyflym, ystyriwn a oes angen inni osod targedau a chwotâu.

Goblygiadau ariannol: Dim. Nodwyd hwn fel maes datblygu allweddol yn y ddogfen Polisi Prentisiaethau a chaiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu cynllun gweithredu clir sy'n benodol ar gyfer pobl anabl i fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth o bobl anabl mewn prentisiaethau.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod y gellir gwella cyfranogiad pobl anabl mewn prentisiaethau ac nad yw'n gymesur â phoblogaeth anabl Cymru. Rydym wedi ymrwymo i wella ein dull gweithredu ac rydym wrthi'n edrych ar ffyrdd i sicrhau bod prentisiaethau'n ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl anabl.

Rydym wedi bod yn gweithio â Remploy i baru'r rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dewis Gwaith â chyfleoedd prentisiaethau. Mae hyn yn dod ag ymdrechion dwy brif raglen ynghyd, ac yn sicrhau bod pobl anabl yn cael gwaith ac yn meithrin sgiliau a fydd yn eu helpu i aros a symud ymlaen mewn cyflogaeth.

Y llynedd, hwyluswyd gweithdai rhwng darparwyr prentisiaethau a swyddfeydd rhanbarthol Remploy a chyflwynwyd dull gweithredu a oedd yn cynnwys gweithiwr achos gyda chymorth Cydlynwyr Prentisiaeth penodedig Remploy. Rydym yn ymwybodol bod dechrau gweithio yn gyfnod anodd i unrhyw brentis newydd, a hyd yn oed yn fwy felly ar gyfer y grŵp hwn, a dyma pam mae Remploy yn parhau i gynnig cymorth drwy gydol blwyddyn gyntaf y brentisiaeth i gynorthwyo a hwyluso'r cyfnod pontio i brentisiaid newydd.

Rydym eisoes wedi gwella ein deunydd marchnata yn y maes hwn ac yn nes ymlaen eleni byddwn yn rhoi ymgyrch farchnata ar waith a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar brentisiaid â chyflyrau Iechyd Meddwl. Rydym yn gweld newidiadau cadarnhaol drwy ein Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac mae un ar bymtheg o'r pedwar ar bymtheg prif ddarparwr prentisiaethau wedi ymrwymo i lofnodi'r addewid 'Amser i Newid', ac rydym wrthi'n gweithio tuag at ddatblygu safbwynt rhagweithiol mewn perthynas â chynlluniau gweithredu Iechyd Meddwl.

[6] Cynllun Cyflogadwyedd (2018) tudalen 31: http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?lang=cy

Mae ein hymgyrch dros gyfle cyfartal yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau posibl i brentisiaethau a wynebir gan grwpiau a dangynrychiolir, gan gydnabod bod angen cymorth ychwanegol o bosibl ar rai prentisiaid i ddal ati a llwyddo. I'r perwyl hwn, mae swyddogion wrthi'n sefydlu "Gweithgor Prentisiaeth Gynhwysol" sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau anabledd o bob cwr o Gymru, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bydd y grŵp hwn yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu Anabledd Prentisiaethau. Cynhelir cyfarfod cyntaf y grŵp yn ystod mis Mai eleni.

Goblygiadau ariannol: Anhysbys. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o gefnogaeth i gyflogwyr i godi ymwybyddiaeth ymhlith ystod ehangach o bobl ifanc o fanteision prentisiaethau.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y manteision a'r cyfleoedd i bobl ifanc drwy brentisiaethau. Mae'n cynnwys:

- Cefnogi digwyddiadau gyrfaoedd a sgiliau blynyddol megis SkillsCymru – llwyfan allweddol i gyflogwyr ddangos y cyfleoedd sydd ganddynt i unigolion a darpar brentisiaid. Hefyd ceir ystod o weithgareddau sy'n dangos manteision dilyn prentisiaeth.
- Hyrwyddo cyfleoedd drwy'r Gwasanaeth Paru Prentisiaeth.
- Llyfryn a thaflen hyrwyddo yn targedu pobl ifanc – ar gael ar-lein a thrwy sefydliadau partner a'r rhwydwaith o ddarparwyr.
- Llyfryn hyrwyddo yn targedu cyflogwyr – ar gael ar-lein ac mewn digwyddiadau cysylltu â chyflogwyr a thrwy'r rhwydwaith o ddarparwyr.
- Ymgyrch amlgyfrwng a chysylltiadau cyhoeddus sy'n targedu busnesau ledled Cymru – gan gynnwys hysbysebion digidol, ar y radio ac yn y wasg.
- Ymgyrch amlgyfrwng a chysylltiadau cyhoeddus sy'n targedu pobl ifanc sy'n gysylltiedig â chanlyniadau arholiadau TGAU a Safon Uwch, i gynorthwyo pobl ifanc I ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt – gan gynnwys sianelau digidol, radio a chyfryngau cymdeithasol.
- Negeseuon cyfryngau cymdeithasol dyddiol yn hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau i bobl ifanc, a manteision y prentisiaethau hynny.
- Deunydd fideo sy'n hyrwyddo astudiaethau achos go iawn, gan hyrwyddo manteision recriwtio prentisiaid a dilyn llwybr prentisiaeth.
- Digwyddiadau yn ystod yr Wythnos Prentisiaethau i ymgysylltu â busnesau newydd nad oes ganddynt gysylltiad â phrentisiaethau i ddeall manteision recriwtio prentis.
- Ymgyrch ymgysylltu ag ysgolion lle mae cyn-brentisiaid yn dychwelyd i'w hysgolion lleol i annog pobl ifanc i ystyried manteision prentisiaeth.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyfarfod ar frys â Cholegau Addysg Bellach a'r Coleg Cymraeg i drafod pa gymorth sydd ei angen i sicrhau bod digon o hyfforddwyr ar gael i gefnogi prentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes mewn cysylltiad rheolaidd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae bwrdd ymgynghorol, sy'n cynnwys uwch reolwyr o'r sector Addysg Bellach, eisoes yn ei le er mwyn casglu eu barn ynglŷn â chymorth yn y dyfodol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar 25 Gorffennaf 2017. Roedd yn cynnwys argymhelliad i ymestyn cylch gwaith y Coleg i gynnwys colegau addysg bellach a'r sector dysgu yn y gweithle. Ar 12 Rhagfyr, cyhoeddwyd yr ymateb ffurfiol i'r adroddiad a derbyniwyd yr holl argymhellion yn llawn.

Cafodd y Coleg y gorchwyl o sefydlu bwrdd cynghori ôl-16 yn cynnwys rhanddeiliaid a chanddynt arbenigedd yn y sector. Bydd y bwrdd yn cynghori ar yr ymyriadau fydd eu hangen yn y dyfodol i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 a gaiff eu datblygu'n gynllun gweithredu ffurfiol. Cyfarfu'r bwrdd ymgynghorol am y tro cyntaf ar 26 Ionawr 2018. Un o'r meysydd trafod oedd sgiliau Cymraeg staff addysgu ac asesu ar draws y sectorau ôl-16; dyma un ffactor hysbys a all gyfyngu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae ymyriadau megis y rhaglen Cymraeg Gwaith eisoes ar waith i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i feithrin a/neu wella sgiliau Cymraeg a bydd camau gweithredu pellach yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun gweithredu.

Goblygiadau ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru osod targed ar gyfer nifer y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg – mae'r strategaeth Gymraeg newydd yn gosod targedau penodol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg cyn 16 oed, ond nid ar gyfer addysg ôl-orfodol

Ymateb: Derbyn

Roedd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd yn 2010 yn cynnwys targedau ar gyfer addysg ôl-16. Cafodd targedau ar gyfer pum mlynedd gychwynnol y strategaeth hyd at 2015 eu cynnwys ynghyd â thargedau dangosol hyd at 2020.

Mae strategaeth newydd y Gymraeg *Cymraeg 2050* yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 gyda nod benodol sef: *"datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle".*

Wrth i'r gwaith o greu cynllun gweithredu i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 fynd rhagddo, bydd gosod targedau ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel

rhan o'r broses hon. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gyhoeddi cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Goblygiadau ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru greu cronfa galedi gystadleuol ar gyfer prentisiaid sydd ar y lefelau cyflog isaf neu greu consesiynau eraill, megis cardiau bws neu reilffyrdd rhatach, fel sydd ar gael i fyfyrwyr eraill.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn cydnabod y gall costau teithio fod yn rhwystr posibl i bobl ifanc sy'n dilyn prentisiaeth. Roedd ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru, "*Teithiau bws rhatach i bobl ifanc yng Nghymru"* yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau bws lleol mwy effeithiol, gan gynnwys cynnig teithiau bws rhatach i brentisiaid[7]. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Byddai angen ystyried cronfa galedi gystadleuol yn erbyn canlyniad yr ymgynghoriad i *Deithiau bws rhatach i bobl ifanc yng Nghymru*.

Yn y gorffennol, mae swyddogion wedi ymchwilio i ddarparu cymhorthdal uniongyrchol ar gyfer costau teithio. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cymhorthdal ar gyfer costau teithio yn cael ei ystyried yn fudd trethadwy; byddai angen rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EM am unrhyw gymorth i brentisiaid sy'n ychwanegu at eu cyflog i ystyried a yw'n incwm trethadwy ai peidio. Gan na fyddai'r cymorth hwn yn gynhwysol, disgwylir y byddai'r incwm yn cael ei ystyried yn drethadwy.

Goblygiadau ariannol: Caiff goblygiadau ariannol eu hystyried os cyflwynir consesiynau teithio.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grant cyffredinol i dalu am gostau byw ar gyfer pob prentis, fel y bydd ar gael i fyfyrwyr prifysgolion Cymru o 2018/19

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r mater o gydraddoldeb rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd hefyd yn berthnasol i Loegr, lle mae Llywodraeth y DU wedi lansio adolygiad cynhwysfawr o addysg ôl-18 i sicrhau bod gan fwy o bobl ddewis gwirioneddol rhwng llwybrau technegol, galwedigaethol ac academaidd o ansawdd uchel.

Mae'r adolygiad yn edrych ar holl system cyllido addysg ôl-18 yn Lloegr, gan gynnwys sut y gall pobl o bob cefndir gael mynediad, symud ymlaen a llwyddo mewn

[7] https://beta.llyw.cymru/teithiau-bws-rhatach-ar-gyfer-pobl-ifanc-yng-nghymru?_ga=2.219712921.1267950971.1522057763-1025074392.1424766066

addysg ôl-18 a sut mae myfyrwyr dan anfantais yn cael cymorth ariannol ychwanegol gan y llywodraeth, prifysgolion a cholegau.

Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar gyngor annibynnol gan banel arbenigol; cyhoeddir adroddiad y panel yn gynnar yn 2019.

Mae Llywodraeth Cymru yn aros am adroddiad y panel er mwyn ein helpu i benderfynu ar ein dull gweithredu yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol: Dim ar hyn o bryd. Byddai angen ystyried unrhyw oblygiadau ariannol ar ôl inni benderfynu ar ein hymagwedd yn 2019.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu peidio â gofyn am dargedau penodol ar gyfer pobl anabl, rhywedd, mynediad Cymraeg i brentisiaethau. Gallai hyn o bosibl arwain at ddiwylliant ticio blychau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn glir nad yw prentisiaethau yng Nghymru eto yn gwbl gynrychioladol o'r gymdeithas ehangach y maent yn dod ohoni. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor yn cwmpasu pob nodwedd warchodedig, a mynediad gan gymunedau incwm isel. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd gwneud y data hyn yn gyhoeddus yn arwain at ehangu mynediad at brentisiaethau i bawb yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi (neu'n parhau i gyhoeddi fel sy'n briodol) ddiweddariad ystadegol blynyddol, fel rhan o ystadegau swyddogol, ynghylch nifer y bobl o grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig (lle mae data ar gael), nifer y siaradwyr Cymraeg a nifer y bobl ddifreintiedig sy'n manteisio ar brentisiaethau. Caiff hyn ei wneud yn seiliedig ar gartref y prentis.

Nodwch: ymddengys bod gwrthdaro rhwng yr argymhelliad hwn ac argymhelliad 5, sy'n gofyn am dargedau ar gyfer prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Goblygiadau ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol mewn perthynas â chyllido prentisiaethau lefel gradd yn y dyfodol a bod prifysgolion Cymru yn glir ynghylch sut y gallant ymgysylltu a chyfrannu at y tirlun prentisiaethau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddatblygu prentisiaethau gradd. Yn 2016, clustnodwyd cyllideb i CCAUC i alluogi sefydliadau i ddatblygu cymwysterau lefel gradd y gellid eu hymgorffori mewn fframweithiau prentisiaethau yn y dyfodol. Roedd llythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer 2017-18 yn amlygu'r cyfleoedd i'r sector addysg uwch gefnogi cyflwyno prentisiaethau lefel uwch.

Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at CCAUC ym mis Chwefror 2018 yn nodi ei bwriad i roi cyllideb i CCAUC i ariannu'r sector addysg uwch i gyflwyno prentisiaethau gradd. Mae'r amcangyfrifon cychwynnol o ran cyflwyno prentisiaethau gradd oddeutu £20m, ar gyfer tair blynedd gyntaf ei weithrediad. Caiff cyllid blynyddol ei gadarnhau yn y llythyr cylch gwaith. Mater i CCAUC yw sut y dyrennir y gyllideb honno.

Mae Llywodraeth Cymru a CCAUC yn parhau i weithio â'i gilydd ar ystod o faterion i gefnogi cyflwyno prentisiaethau gradd megis marchnata.

Mae Cynghorau Sgiliau Sector, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn ymgysylltu â'r sector i sicrhau eu cyfraniad at ddatblygiad y cynnig dysgu. Ar hyn o bryd mae fframweithiau wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer y meysydd digidol, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch.

Goblygiadau ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygu a chyflwyno prentisiaethau gradd ym mis Hydref 2018.

Ymateb: Derbyn

Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran datblygu a chyflwyno prentisiaethau gradd ym mis Hydref 2018.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 11. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau dwywaith y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru hyd nes y bydd y rhaglen Cyflogadwyedd newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2019.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor ar weithredu'r Cynllun Cyflogadwyedd yn dilyn ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018.

Goblygiadau ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru bennu dyddiad cau ar gyfer dechrau addysgu prentisiaethau lefel gradd a rhannu hyn gyda'r Pwyllgor a'r rhanddeiliaid.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i CCAUC i'w ddyrannu i'r sefydliadau hynny mae'n eu hariannu i gyflwyno prentisiaethau gradd. Y sefydliadau hynny, fel cyrff annibynnol, fydd yn penderfynu pryd y byddant yn dechrau cyflwyno prentisiaethau gradd. Mae cyflwyno prentisiaethau gradd hefyd yn amodol ar ymgysylltiad cyflogwyr. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cynghori CCAUC ei bod hi'n disgwyl i elfen o'r cyflwyno ddechrau ym mis Medi 2018. Felly nid yw'n briodol i Lywodraeth Cymru bennu dyddiad cau.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa ddulliau sydd ganddi i annog pob partner i gymryd rhan lawn yn y prosbectws ardal gyffredin.

Ymateb: Gwrthod

Rydym yn cydnabod bod gwerth i bob person ifanc gael mynediad at ystod lawn o ddarpariaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u dysgu a'u hyfforddiant yn y dyfodol. Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gofyn i Gyrfa Cymru gynnal y Prosbectws Ardal Gyffredin ac i alluogi darparwyr addysg ôl-16 i gynnwys a/neu ddiweddaru eu cynigion Cwricwlwm Lleol. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol ei gwneud yn orfodol i bob darparwr lanlwytho eu cynigion i'r Prosbectws Ardal Gyffredin; bydd swyddogion yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r Prosbectws a'i fanteision ar draws ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gweithle gyda'r bwriad o gynyddu nifer y darparwyr sy'n cynnwys eu darpariaeth yn y Prosbectws.

Rydym yn annog darparwyr a chyflogwyr i hysbysebu eu cyfleoedd prentisiaeth ar Wasanaeth Paru Prentisiaethau Gyrfa Cymru fel yr offeryn pwrpasol i gefnogi a helpu pobl sy'n chwilio am gyfleoedd prentisiaethau. Mae hyn yn cydnabod mai swyddi gyda hyfforddiant yw prentisiaethau lle mae argaeledd prentisiaeth yn dibynnu ar gyflogwyr yn darparu'r swyddi hynny.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 14. Dylai Estyn ystyried y ffordd orau o gynnwys yn ei arolygiadau argaeledd ac ansawdd cyngor ar gyrsiau galwedigaethol a hyfforddiant (gan gynnwys prentisiaethau) mewn ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych ar ba ddulliau sydd ganddi i gymell ysgolion. Dylai Consortia Addysg Rhanbarthol ystyried pa gymorth a her y gallant eu darparu i ysgolion yn y maes hwn.

Ymateb: Gwrthod (sentence pertaining to the Welsh Government)

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod angen ymyrraeth gynharach o ran darparu cyngor gyrfaoedd annibynnol i ddisgyblion cyn iddynt wneud eu dewisiadau TGAU. Mae cyfoeth o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth o ansawdd eisoes yn bodoli i helpu pobl ifanc i wneud y dewisiadau cywir ynglŷn â'u dyfodol.

Gyrfa Cymru sy'n darparu'r gwasanaeth annibynnol i bobl ifanc mewn ysgolion gyda gwasanaethau ar gael i gefnogi'r rhai yng Nghyfnod Allweddol 3 cyn iddyn nhw ddewis eu hopsiynau TGAU. Mae Gyrfa Cymru wedi cynyddu nifer y cynghorwyr sy'n gweithio ag ysgolion yn sylweddol ac mae ystod eang o adnoddau ac offer dwyieithog ar gael i helpu pobl ifanc ystyried eu dewisiadau.

Mae adroddiad diweddaraf Gyrfa Cymru (Medi 2016 - Awst 2017) yn darparu ffigurau ar gyflwyno gwasanaethau a rhyngweithio â phobl ifanc mewn ysgolion; er enghraifft, cymerodd 15,903 o fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 3 a 51,498 o fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 ran mewn sesiynau grŵp yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Mae gan fyfyrwyr gyfle hefyd i gymryd rhan mewn cyfweliadau unigol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 2,996 o fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 3 a 20,791 o fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau un i un yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Mae pobl ifanc yn gallu ymgysylltu â chynghorwyr gyrfa naill ai'n uniongyrchol drwy eu hysgol neu drwy e-bost, sgwrs ar-lein neu wasanaethau dros y ffôn. Mae adnoddau sy'n helpu pobl ifanc i ystyried eu dewisiadau pwnc a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â meysydd astudio neu waith posibl yn y dyfodol ar gael ar www.gyrfacymru.com.

Ffigurau ar gyfer cymorth Cyfnod Allweddol 3 rhwng 01.09.16 – 31.8.17:

- Nifer y cleientiaid a gafodd gyfweliad – 2,996
- Cyfweliadau unigol â Chynghorwyr Gyrfa – 3,220
- Cyfweliadau unigol â Chynorthwywyr Gyrfa – 5
- Nifer y cleientiaid a fynychodd Sesiwn Grŵp – 15,903
- Nifer y cynghorwyr mewn sesiynau grŵp – 590

Mae ffigurau ar wahân ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ystod yr un cyfnod:

- Adolygiadau Pontio /Blynyddol a fynychwyd gyda myfyrwyr â datganiadau AAA – 799
- Adolygiadau Pontio / Blynyddol â disgyblion heb ddatganiad – 103
- Nifer yr adroddiadau a baratowyd ar gyfer Adolygiadau Pontio / Blynyddol a fynychwyd gyda datganiadau AAA – 555
- Nifer yr adroddiadau a baratowyd ar gyfer Adolygiadau Pontio / Blynyddol â disgyblion heb ddatganiad – 57

Rydym hefyd wedi rhoi mesurau ar waith i helpu i ymgysylltu â phobl ifanc sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg. Mae gweithgaredd yn cynnwys:

- Cyflwyno **Prentisiaethau Iau** i ddisgyblion 14 i 16 oed i ddarparu cam cyntaf tuag at brentisiaeth.

- Cynnig **taliad gwell i ddarparwyr** i'w hannog i gymryd prentisiaid 16 i 19 mlwydd oed.

- **Ymgyrchoedd blynyddol i godi proffil prentisiaethau**, ynghyd â chanolbwyntio ar hysbysebu cyfleoedd pan fo myfyrwyr yn gadael yr ysgol neu;r coleg i sicrhau'r dewis mwyaf.

- Mae **Rhaglen Paratoi ar gyfer Prentisiaeth** sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc 16-19 mlwydd oed yn helpu pobl ifanc i ddechrau cwrs dysgu galwedigaethol ar lefel tri hyd yn oed os oes ganddynt gymhwyster academaidd cyfwerth.

Enw ein datblygiad mwyaf yw **Rhowch Gynnig Arni**, sydd wedi'i anelu at godi proffil addysg alwedigaethol drwy ganiatáu i bobl ifanc gael profiad galwedigaethol mewn coleg neu ysgol. Mae wedi bod yn hynod o lwyddiannus, gan ymgysylltu â thros 55,000 o bobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn symud tuag at broses mwy diffiniedig a chylchol o ran hysbysebu cyfleoedd prentisiaethau ar gyfer unigolion 16-19 mlwydd oed, fydd yn cyrraedd ei hanterth yn ystod y cyfnod pan fydd myfyrwyr yn gadael yr ysgol/coleg.

O ran ymgysylltu ysgol-cyflogwr, rydym yn parhau i gefnogi'r prosiect ymgysylltu Dosbarth Busnes sydd wedi sefydlu mwy na 80 o bartneriaethau rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr. Mae Gweinidogion wedi darparu £400,000 ychwanegol i Gyrfa Cymru yn 2017/18 i gefnogi ymgysylltu ysgol-cyflogwr ac i gefnogi ysgolion wrth iddynt gyflawni'r cwricwlwm gyrfaoedd a'r byd gwaith.

Mae Gyrfa Cymru wedi lansio gwasanaeth Cyfnewidfa Addysg Busnes sy'n darparu cronfa ddata gyfleus o gyflogwyr a'r hyn y maent yn ei gynnig i ysgolion. Mae mwy na 60 o ysgolion yn ardal Tasglu'r Cymoedd a Cheredigion wedi derbyn hyfforddiant i ddefnyddio'r Gyfnewidfa fel rhan o'r cam cyntaf o gyflwyno'r prosiect.

Mae Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer disgyblion cofrestredig 11 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Mae gan ysgolion, colegau, a darparwyr dysgu eraill yng Nghymru'r hyblygrwydd i gynllunio a darparu rhaglenni Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn y ffordd fwyaf priodol i ddiwallu anghenion dysgwyr, ee. gellid darparu hyn fel model integredig ar draws ystod eang o feysydd pwnc. Bydd angen i'r person sy'n cydlynu Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith sicrhau bod ystod o bartneriaid yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r maes hwn o'r cwricwlwm, megis Gyrfa Cymru, cyflogwyr a modelau rôl.

Mae pob un o'r mesurau hyn yn helpu i annog a pherswadio ysgolion i ymgysylltu â cholegau addysg bellach a chyflogwyr a newid ymddygiad ac agweddau tuag at ddysgu galwedigaethol mewn ysgolion.

O ran y rhan o'r argymhelliad sy'n ymwneud ag Estyn, mae Estyn wedi dweud wrth swyddogion ei fod yn croesawu adroddiad y Pwyllgor. Mae wedi bod yn ystyried cyngor gyrfaoedd yn ei arolygiadau ers blynyddoedd lawer a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae sail dystiolaeth Estyn yn cynnwys argaeledd a safon cyngor gyrfaoedd, hyd yn oed os na sonnir yn hollol benodol am hynny yn yr adroddiadau, gan fod yr adroddiadau'n son am gryfderau a gwendidau ysgol, ac felly sonnir am y mwyafrif helaeth o agweddau ar waith ysgolion. Bydd Estyn yn parhau i adolygu ei drefniadau arolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â datblygiadau newydd, gan gynnwys

pwysigrwydd cynyddol cyngor gyrfaoedd ar gyrsiau galwedigaethol a chyrsiau hyfforddi (gan gynnwys prentisiaethau) mewn ysgolion.

Goblygiadau ariannol: Dim.